**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Wener Mai 6ed 2016 yn Neuadd y Dref, Dinbych am 7 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Rob Parkes, Medwyn Williams, Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Gaynor Wood, Philip Stevens, Catherine Jones, Marilyn Jones, Alyn Ashworth a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Gaynor Morgan Rees, Colin Hughes, Mark Young. Cofnodwyd nifer o ymddiheuriadau oddi wrth westeion eraill a wahoddwyd.

1 **Gweddïau:** Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan Gaplan y Maer, y Parchedig Eifion G Jones.

**2.** **Adroddiad Blynyddol y Maer:** Cyflwynodd y Maer, y Cyng Raymond Bartley, adolygiad o'r flwyddyn ddinesig 2015 / 2016 gan gyfeirio at uchafbwyntiau'r prif ddigwyddiadau oedd wedi cymryd lle.

**3.** **Ethol Maer:** Cynigodd y Cyng Roy Tickle, eiliwyd gan y Cyng Gaynor Wood-Tickle, a phenderfynwyd fod y Cyng Margaret Bowe yn cael ei hethol yn Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2016 / 2017.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Margaret Bowe y Datganiad Statudol yn Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Cyng Raymond Bartley Cadwyn y Swydd i'r Cyng Margaret Bowe
Cyflwynodd y Cyn Faeres, Mrs Dorothy Bartley, Cadwyn Swydd Cydwedd i Mr James Bowe.

**4.** **Cyflwyniad:** Cyflwynodd y Maer, Blac Dinesig a Bathodyn Cyn Faer i'r Cyng Raymond Bartley i gofio am ei flwyddyn yn y swydd. Cyflwynodd y Maer, Fathodyn Dinesig i'r Mrs Dorothy Bartley i gofio am ei blwyddyn yn y swydd.

**5.** **Pleidlais o Ddiolch:** Cynigodd y Cyng Roy Tickle bleidlais o ddiolch i'r Cyng Raymond Bartley am y modd yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn 2015 / 2016

**6.** **Adroddiad y Maer:** Diolchodd y Maer newydd i'w Chynigydd a'i Eilydd ac yna anerchodd y cyfarfod.

**7.** **Ethol Dirprwy Faer:** Cynigodd y Cyng Raymond Bartley, eiliwyd gan y Cyng Rob Parkes a phenderfynwyd fod y Cyng Roy Tickle yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2016 /2017.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Roy Tickle y Datganiad yn Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn y Swydd i'r Cyng Roy Tickle.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn y Dirprwy Faeres i'r Cyng Gaynor Wood-Tickle.

8. **Adroddiad Presenoldeb Cynghorwyr am y flwyddyn 2015 / 2016:** Cyfeiriodd y Maer at bresenoldeb blwyddyn fwrdeistrefol 2015/2016. Roedd tri cynghorydd sef y Cyng Raymond Bartley, Roy Tickle a Gaynor Wood-Tickle wedi llwyddo ar bresenoldeb 100%. Mabwysiadwyd yr adroddiad presenoldeb.

**9.** **Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Parchedig Hanon Pauline Walker yn Gaplan am y Flwyddyn Ddinesig 2016/2017.

**10.** **Gwasanaeth Dinesig:** Datganodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn Eglwys y Santes Fair, Dinbych, Dydd Sul Mai 22ain 2016 am 3.30 o'r gloch y prynhawn.

**11.** **Y Fendith:** I ddod â'r gweithgareddau i ben, traddodwyd y Fendith gan Gaplan y Maer y Parchedig Ganon Pauline Walker.